# Monitro a chynnal ansawdd asesiadau yn fewnol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro prosesau asesu a phenderfyniadau mewn sefydliad, yn ogystal â helpu i gynnal ansawdd yr asesu a'i wella.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. paratoi ar gyfer y broses ddilysu fewnol drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i nodi, ei chasglu a'i defnyddio.
2. sefydlu strategaeth samplu briodol i fodloni gofynion y broses asesu a sicrhau ansawdd
3. cadarnhau bod asesydd/aseswyr yn bodloni gofynion strategaeth asesu berthnasol a bod cynlluniau asesu yn briodol
4. cynllunio'r gwaith o weithredu strategaeth samplu a gweithgareddau monitro
5. paratoi gweithgareddau monitro yn unol â gofynion y strategaeth samplu
6. penderfynu a yw prosesau a systemau asesu yn bodloni ac yn gweithredu yn unol â gofynion perthnasol o ran sicrhau ansawdd a rheoleiddio
7. gwirio bod asesiadau'n cael eu cynllunio, eu paratoi a'u cynnal yn unol ag egwyddorion gweithdrefnau asesu y cytunwyd arnynt
8. gwneud yn siŵr bod dulliau asesu yn ddilys, yn ddibynadwy, yn gadarn ac yn gyfredol
9. samplu penderfyniadau aseswyr i sicrhau eu bod yn gyson, yn ddibynadwy ac yn ddilys ac yn bodloni'r gofynion asesu
10. rhoi adborth, cyngor a chymorth i aseswyr i'w helpu i gynnal eu harferion asesu a'u gwella
11. gweithio gydag aseswyr ac eraill i sicrhau bod arferion a deilliannau asesu wedi'u safoni
12. dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt pan fo pryderon o bwys ynghylch ansawdd yr asesiad
13. dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cofnodi, storio ac adrodd gwybodaeth a'i chadw'n gyfrinachol
14. Cymryd rhan mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd ehangach sy'n cyfrannu at ansawdd asesu ac sy'n cefnogi eich datblygiad eich hun
15. myfyrio ar eich arferion a nodi anghenion datblygiad proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion sefydliadol, cyfreithiol a phroffesiynol y dylid eu dilyn wrth gynllunio rhaglenni dysgu a datblygu
2. y gofynion ansawdd cyfredol ar gyfer prosesau a systemau asesu ym maes eich cyfrifoldeb
3. y cysyniadau a'r egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd
4. y cysyniadau a'r egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig ag asesu
5. rôl yr aseswr a gofynion perthnasol y rôl
6. rolau'r rhai sy'n ymwneud â chynnal ansawdd asesu a gofynion perthnasol y rolau hyn
7. y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllunio asesiadau, paratoi ar eu cyfer a'u cynnal
8. technegau ar gyfer samplu tystiolaeth o asesu, gan gynnwys defnyddio technoleg yn briodol
9. meini prawf priodol ar gyfer asesu ansawdd y broses asesu
10. sut i sicrhau bod iechyd a diogelwch y dysgwr yn cael ei gynnal yn ystod yr asesiad
11. defnyddiau, manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau asesu
12. y mathau o adborth, cymorth a chyngor sydd eu hangen ar aseswyr a sut i ddiwallu'r anghenion hyn
13. materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth a allai effeithio ar asesu a sicrhau ansawdd, a sut i fynd i'r afael â'r rhain
14. gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd pryderon am ansawdd yr asesiad: pryd a sut i'w defnyddio
15. prosesau safoni a sut i gydlynu a chyfrannu at y rhain
16. y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd anghydfodau ynghylch asesu a sicrhau ansawdd
17. y gweithdrefnau i'w dilyn wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer, cyflawni a chofnodi gweithgarwch monitro
18. y gofynion ar gyfer rheoli gwybodaeth, diogelu data a chyfrinachedd mewn perthynas ag asesu a sicrhau ansawdd
19. gwerth a diben datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr asesu a sicrhau ansawdd

## Geirfa

**Dull asesu**

Ffordd o gynhyrchu tystiolaeth o wybodaeth a/neu sgiliau ymgeisydd. Ffyrdd o fesur dysgu a datblygu, er enghraifft, arsylwi, cwestiynu, gwirio cynhyrchion gwaith, gosod aseiniadau.

**Gofynion Asesu**

Term eang a ddefnyddir i gynnwys meini prawf asesu, strategaethau asesu, tasgau asesu.

**Strategaeth Asesu**

Dull rheoli ansawdd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a allai gynnwys gwybodaeth fel cwmpas cyffredinol y strategaeth, cymwysterau cysylltiedig, gwybodaeth am sicrhau ansawdd, meini prawf tystiolaeth, a gofynion o ran cymwysterau i aseswyr a dilyswyr ym maes y pwnc. Mae strategaethau asesu ar gael ar wefannau cyrff dyfarnu neu sefydliadau sgiliau sector perthnasol.

**Dilys**

Gwaith yr ymgeisydd ei hun.

**Ymgeisydd**

Y dysgwr yn cael ei asesu.

**Cyfredol**

Dylai'r dystiolaeth gyfredol ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn hyderus ynghylch pa mor gyfredol yw'r sgiliau a gwybodaeth a honnir, a bod yr ymgeisydd yn gymwys ar y pwynt asesu.

**Cydraddoldeb**

Triniaeth deg sy'n hawl i bawb waeth beth fo'r gwahaniaethau o ran diwylliant, gallu, hil, rhyw, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd grŵp arall.

**Tystiolaeth**

Gallai hyn, er enghraifft, fod yn gynnydd dysgwyr, cyrhaeddiad dysgwyr, boddhad

dysgwyr, ymgysylltu â staff, yn unol â'r hyn sy'n briodol i'r dangosyddion ansawdd.

**Amrywiaeth**

Cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw, a chydnabod ein gwahaniaethau unigol o ran diwylliant, gallu, rhyw, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd unigol arall.

**Iechyd a diogelwch**

Mae hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch corfforol yn ogystal â lles emosiynol.

**Sefydliad**

Er enghraifft, sefydliad dyfarnu, adran fewnol neu unrhyw sefydliad arall sy'n ymwneud ag asesu.

**Deilliannau**

Gallai'r rhain fod yn ddeilliannau i'r grŵp cyfan - er enghraifft galluogi effeithiolrwydd tîm - a/neu ddeilliannau i'r unigolion sy'n ffurfio'r grŵp — er enghraifft caffael sgiliau unigol.

**Arferion**

Mae hyn yn cyfeirio at y 'ffordd' rydych chi'n gwneud eich gwaith ac mae'n ystyried ffactorau fel eich dull o weithio.

**Gofynion ansawdd**

Gallai'r rhain fod, er enghraifft, yn ofynion sefydliadol, cyfreithiol/statudol, gofynion o ran cyllid neu'n ofynion gan sefydliadau dyfarnu.

**Dibynadwy**

Yn cyflawni'r un canlyniadau yn gyson gyda'r un grŵp (neu grŵp tebyg) o ddysgwyr.

**Gofynion ar gyfer eu rôl**

Gallai hyn gynnwys meddu ar gymhwyster asesydd a/neu fod yn arbenigwr yn y pwnc sy'n cael ei asesu.

**Cadarn**

Mae tystiolaeth gadarn yn gallu gwrthsefyll beirniadaeth ac mae modd cyfiawnhau ei defnydd yn hawdd.

**Rôl**

Defnyddir hwn i ddisgrifio'r swydd yr ydych wedi eich contractio i'w chyflawni a'r gwaith y mae'n rhaid i chi ei wneud.

**Digonol**

Digon o dystiolaeth fel y nodir yn y Gofynion o ran Tystiolaeth neu'r Strategaeth Asesu.

**Cywir**

Yn berthnasol i'r meini prawf y mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu yn eu herbyn.

Monitro a chynnal ansawdd asesiadau yn fewnol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Meh 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lifelong Learning UK |
| **RCU gwreiddiol** | LaD11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gweithwyr Addysgu Proffesiynol, Addysgu a darlithio, Gweithiwr Gwasanaethau Cyhoeddus Proffesiynol, Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Cyfres/Set** | Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | anghenion dysgu cyfunol, anghenion datblygu, ffocws dysgu, nodi anghenion dysgu, dysgu, dadansoddi anghenion dysgu, blaenoriaethu anghenion dysgu, anghenion hyfforddi, cyfrinachedd dysgwyr, ymarferwyr datblygu dysgu |